



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

**Gweithdrefn Datgelu:  
Cais am Wybodaeth gan  
Asiantaethau Gweithredu'r Gyfraith**

<b>Dyddiad</b>	<b>Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid</b>	<b>Cwblhawyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb</b>
3ydd Hydref 2016	Cymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio	25ain Hydref, 2016
28ain Ionawr 2019	Adolygwyd, ac ail-gymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio	

<b>Swyddog Polisi</b>	<b>Uwch Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Cymeradwywyd gan</b>	<b>Dyddiad</b>
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio	Ysgrifennydd y Brifysgol	Grŵp Tasg Cydymffurfio	28ain Ionawr 2019

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen 3 mlynedd*

## 1. Cefndir

Bwriad y gweithdrefnau hyn yw ymdrin â sefyllfaoedd lle mae'r Brifysgol yn derbyn ceisiadau gan yr Heddlu neu sefydliadau / asiantaethau eraill gyda chyfrifoldebau dros weithredu'r gyfraith (fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol, Adran Tollau a Refeniw Ei Mawrhydi ac UK Visas and Immigration) am wybodaeth bersonol, neu gategori arbennig am fyfyrwyr, staff neu unigolion eraill y mae'r Brifysgol yn cadw gwybodaeth amdanynt. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn cynnwys darparu unrhyw recordiadau CCTV<sup>1</sup> ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Mae gwybodaeth bersonol y mae'r Brifysgol yn ei chadw yn cael ei rheoli yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 (DDD) y Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR), a Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol<sup>2</sup>. Mae Polisi'r Brifysgol yn rhoi cyfarwyddyd ar yr amgylchiadau pan fydd yn gyfreithlon datgelu a throsglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Brifysgol, ac yn gyffredinol, dylid gwneud hyn yn "deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw" ac yn unol â Pholisi'r Brifysgol.

Fodd bynnag, ceir eithriadau gyda'r DDD sy'n caniatáu i'r Brifysgol, dan ganllawiau llym, ryddhau gwybodaeth i asiantaethau sy'n gweithredu'r gyfraith, heb gydsyniad yr unigolyn y rhyddheir ei wybodaeth, waeth beth fo'r pwrpas y casglwyd y wybodaeth ar ei gyfer yn wreiddiol. Yn benodol, gellir rhyddhau gwybodaeth bersonol.

Mae Adran 2(1) o Atodlen 2 o'r Ddeddf Diogelu Data 2018 yn nodi nad yw darpariaethau penodol y Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data yn berthnasol ar gyfer:

- gwybodaeth bersonol wedi ei brosesu at bwrpas atal neu ganfod trosedd,
- Dal neu erlyn troseddwr, neu
- Asesu neu gasglu unrhyw dreth neu doll, neu gosb debyg ei natur

Mae Adran 26 o'r Ddeddf yn datgan fod eithriad yn bodoli os oes angen y wybodaeth bersonol ar gyfer diogelwch gwladol.

Gellir hefyd datgelu gwybodaeth bersonol, heb fynd yn groes i ofynion y Ddeddf, lle mae'r datgeliad yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Cyn i'r Brifysgol ddatgelu unrhyw wybodaeth i asiantaeth sy'n gweithredu'r gyfraith, rhaid iddi fodloni ei hun bod angen datgelu a bod ei angen at bwrpas cyfreithlon.

Bydd y Brifysgol yn cydweithredu â'r heddlu ac asiantaethau eraill i atal a chanfod trosedd, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi'r drefn i'w dilyn wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth bersonol gan yr asiantaethau allanol yma.

Dylid hefyd defnyddio'r gweithdrefnau hyn mewn cysylltiad â Pholisi Prevent y Brifysgol, a'r Cytundeb Rhannu Gwybodaeth rhwng y Brifysgol a phartneriaid y Rhaglen Prevent a Channel.

## 2. Ceisiadau am Wybodaeth

Mae'n bwysig bod y Brifysgol yn ymateb i bob cais am wybodaeth mewn modd cyson. Er mwyn hwyluso hyn, mae gan y Brifysgol system un man cyswllt ar gyfer holl geisiadau asiantaethau gweithredu'r gyfraith, sy'n cael ei oruchwylio gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio, a'i reoli o ddydd i ddydd gan y Rheolwr Cydymffurfio a Chofnodion. I hwyluso hyn rhaid i

<sup>1</sup> Ceir hyd i gyfarwyddyd penodol ynghylch gweithredu system CCTV y Brifysgol yn y *Cod Ymarfer CCTV*

<sup>2</sup> Ar gael o wefan y Brifysgol.

unrhyw staff sy'n derbyn cais am wybodaeth bersonol gan yr Heddlu neu unrhyw asiantaeth arall gyda chyfrifoldebau gweithredu'r gyfraith, ei anfon ymlaen mor fuan ag sy'n bosibl at y Rheolwr Cydymffurfio a Llywodraethu. Bydd y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio wedyn yn sicrhau yr ymdrinnir â'r cais yn unol â gweddill y gweithdrefnau hyn. Dylid cyfeirio cwestiynau ar faterion yn ymwneud â cheisiadau am wybodaeth gan yr heddlu neu asiantaethau eraill at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio hefyd.

Ni ddylai staff deimlo dan bwysau i ddatgelu gwybodaeth 'yn y fan a'r lle', gan mai anaml iawn y bydd ar yr heddlu neu asiantaethau angen gwybodaeth ar frys (ond ymdrinnir â'r cyfryw amgylchiadau yn Adran 4 isod).

### **3. Trefniadau y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio**

#### **[a] Ceisiadau gan yr Heddlu**

Mae gan bob heddlu ffurflenni safonol y mae'n rhaid eu defnyddio i wneud cais am wybodaeth bersonol yn unol â chyfarwyddyd a roddir gan yr 'Association of Chief Police Officers'. Rhaid i'r ffurflen gadarnhau bod angen y wybodaeth ar gyfer ymchwiliad yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol, er mwyn atal neu ganfod trosedd, neu ddal neu erlyn troseddswyr, ac y bydd methu â datgelu'r wybodaeth yn amharu ar yr ymchwiliad. Dylid derbyn pob cais gan yr heddlu (ac eithrio ceisiadau brys, yr ymdrinnir â nhw yn adran 4 isod,) ar ffurflen ddiogelu data, dylid nodi'n glir y wybodaeth sydd ei angen, a dylai swyddog o safle Sarjant neu uwch ei llofnodi a'i dyddio.

#### **[b] Asiantaethau eraill gyda Chyfrifoldebau Gweithredu'r Gyfraith**

Efallai na fydd asiantaethau eraill yn defnyddio ffurflenni safonol yn ôl yr arfer i gyflwyno'u ceisiadau. Fodd bynnag, dylai unrhyw gais am wybodaeth bersonol:

- Fod yn ysgrifenedig, ar bapur pennawd, gyda swyddog o'r asiantaeth wedi'i lofnodi;
- Disgrifio natur y wybodaeth y gofynnir amdani;
- Disgrifio natur yr ymchwiliad yn fras, yn cynnwys nodi unrhyw awdurdod statudol perthnasol dros ofyn am y wybodaeth;
- Cadarnhau bod angen y wybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad.

Ar ôl derbyn y cyfryw gais, dylai'r Rheolwr Cydymffurfio a Chofnodion ddatgelu'r data fel rheol, ar ôl ystyried sefyllfa gyfreithiol y Brifysgol yn briodol i roi'r cyfryw ddata.

### **4. Ceisiadau i Ddatgelu Gwybodaeth mewn Sefyllfaoedd Brys**

Gall yr heddlu, asiantaethau eraill gweithredu'r gyfraith neu wasanaethau brys eraill fod angen data personol ar frys gan y Brifysgol, ac efallai na fyddant mewn sefyllfa i lenwi'r gwaith papur arferol ar y pryd. Fel rheol, Adran Ddiogelwch y Brifysgol sy'n derbyn y ceisiadau hyn, ond gall unrhyw aelod staff eu derbyn. Bydd ceisiadau o'r math yma'n cynnwys ceisiadau brys i roi recordiadau CCTV am resymau dilys gweithrediadau'r heddlu a / neu geisiadau am fanylion cyswllt staff neu fyfyrwyr.

Yn yr amgylchiadau hyn, dylai staff gysylltu â'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, neu'r Rheolwr Cydymffurfio a Chofnodion am gyngor ac awdurdod cyn rhoi unrhyw wybodaeth / recordiad CCTV.

Os yw'r cais tu allan i oriau swyddfa arferol, yn ystod cyfnod gwyliau'r Brifysgol, neu ar benwythnos, a bod angen gwybodaeth neu luniau ar unwaith i ymdrin â digwyddiad parhaus yr heddlu, neu asiant gweithredu'r gyfraith arall, dylid dilyn y gweithdrefnau isod:

1. Dylai Adran Ddiogelwch y Brifysgol nodi'r holl wybodaeth sydd ei angen ar frys, amgylchiadau'r cais ac enw, rheng a rhif yr heddwes neu'r aelod o staff sy'n gwneud y cais.
2. Dylid wedyn cael awdurdod / cyngor gan y Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) neu Ddirprwy.
3. Os nad yw'r cais yn un syml, neu os nad yw'r wybodaeth yn hawdd ei leoli dylai'r Rheolwr Gwasanaethau Campws (Diogelwch) neu Ddirprwy geisio cyngor gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.
4. Unwaith yr awdurdoddir rhyddhau'r wybodaeth / delweddau dylai'r Arweinydd Tîm Diogelwch, neu Gynorthwydd, nodi yn y log diogelwch union amgylchiadau'r cais, ac enw, rheng a rhif yr Heddwes neu'r aelod o staff. Dylid danfon y wybodaeth yma at y Rheolwr Cydymffurfio a Chofnodion cyn gynted a bo modd.
5. Os yw gwybodaeth / delweddau'n cael eu rhyddhau ar frys bydd y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio yn sicrhau y bydd y cais yn cael ei ddilyn fyny gyda chais ysgrifenedig ffurfiol gan yr asiantaeth gweithredu'r gyfraith, un ai drwy gyflenwi ffurflen diogelu data, neu lythyr ar ben llythyr wedi ei awdurdodi'n briodol.